

CARTREFI GWAG – Canllaw Perchnogion

Eich helpu chi gyda'ch cartref gwag

Mae'r Swyddog Cartrefi Gwag yn cynnig cyngor a chymorth i'ch helpu chi i ganfod y ffordd orau o ddefnyddio'ch eiddo gwag a gwneud y gorau ohono.

Pam bod cartrefi gwag yn destun pryder?

Mae cartrefi sy'n cael eu gadael yn wag yn destun pryder am sawl rheswm:

- Gallan nhw fod yn faich ariannol trwm ar berchnogion
- Maent yn adnoddau wedi eu gwastraffu mewn ardal lle mae galw mawr am dai
- Gallan nhw ddenu troseddwy'r a fandaliaid ac annog ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae adnewyddu cartrefi gwag a'u defnyddio unwaith eto yn lleihau'r risgiau. Mae yna hefyd sawl mantais:

- Elw ariannol, lleihau baich a phryder o ran bod yn gyfrifol am eiddo gwag
- Darparu tai ychwanegol yn y sir heb adeiladu rhai newydd

Pa gyngor a chymorth sydd ar gael?

Rydym ni'n cydnabod y gall adnewyddu cartref gwag eich rhoi dan straen, felly mae ein Swyddog Cartrefi Gwag ar gael i roi cyngor a chymorth arbenigol ar aildefnyddio cartrefi gwag. Gallen eich helpu chi i wneud y gorau o'ch eiddo drwy ddarparu cyngor a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer eich anghenion penodol chi.

Cyngor Cyffredinol

- Cymorth i ganfod y defnydd mwyaf addas ar gyfer eich eiddo
- Cyngor ar y galw lleol am dai

Cyngor ar Adnewyddu

- Cymorth i ganfod ffynonellau ariannu
- Cymorth i ddewis contractwyr a chyflenwyr lleol a rheoli'r gwaith ar eich rhan

Gwerthu'ch Eiddo

- Cyngor a chymorth ar werthu eiddo mewn ocsiwn
- Gwybodaeth am brynwyr preifat sydd â diddordeb mewn prynu cartrefi gwag

Cyngor Ariannol

- Gwybodaeth am grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol

Sut fedra i wybod mwy?

Os hoffech chi wybod mwy am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael, neu os hoffech chi gael sgwrs am eich eiddo gwag a'ch dewisiadau, gallwch gysylltu â'r Swyddog Cartrefi Gwag yn defnyddio'r manylion cyswllt isod.

Er mwyn ein cynorthwyo ni i ddarparu cyngor a chymorth addas i chi, byddai'n ddefnyddiol petaem yn derbyn manylion am yr isod:

- Cyflwr yr eiddo
- Dyddiad y daeth yr eiddo'n wag
- Eich cynlluniau ar gyfer yr eiddo

Mae'r trafodaethau yn gyfrinachol ac ni fyddwn yn rhannu'ch gwybodaeth â thrydydd parti heb eich caniatâd.

Beth fyddai'n digwydd petai fy eiddo yn parhau'n wag?

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn awyddus i gynorthwyo perchnogion i aildefnyddio eiddo gwag. Fodd bynnag, os ystyrir bod eiddo'n cael effaith andwyol ar gymdogaeth ac amwynderau lleol, a bod pob cynnig ar gyfer cymorth gwirfoddol wedi ei wrthod, yna gall y Cyngor ystyried cymryd camau gorfodi.

Byddai gan y Cyngor sawl dewis yn dibynnu ar statws yr eiddo, gan gynnwys:

- Cyflwyno rhybudd gwella i orfodi'r perchennog i wella'r eiddo hyd at y safonau tai cyfredol
- Gorfodi'r perchennog i werthu'r eiddo
- Cyflwyno gorchymyn dymchwel

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r:

Swyddog Cartrefi Gwag
Tim Tai ac Ardaloedd Adnewyddu
Ffordd y Ffair
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3RJ

andrea.fisher@sirddinbych.gov.uk

☎01824 706831